# Canllaw credyd treth ar gyfer rhieni hunan-gyflogedig

## Rhagymadrodd

Y mae'r rheolau ar gyfer cael credydau treth yn gymhleth iawn, efallai yn fwy fyth os ydych yn rhiant plentyn anabl. Ac yn sicr, os ydych chi neu'ch cymar yn digwydd bod yn hunan-gyflogedig.

Y mae'r daflen wybodaeth hon yn egluro popeth y mae arnoch angen gwybod am hawlio credydau treth yn gyffredinol a rhai materion neilltuol y gall fod ar rieni hunan-gyflogedig angen bod yn ymwybodol ohonynt.

Y mae credydau treth yn rhyngweithio gyda budd-daliadau ar gyfer teuluoedd ar incwm isel, ac fe allwch ganfod mwy am hyn tuag at ddiwedd y canllaw. Am gyngor unigol, ffoniwch ein llinell gymorth radffon ac fe wnawn drefnu i gynghorydd arbenigol siarad â chi.

**Cynnwys**


- Beth yw credydau treth?
- A allaf hawlio Credyd Treth Gwaith?
- Arian ychwanegol mewn Credyd Treth Gwaith ar gyfer
- costau gofal plant
- A allaf hawlio Credyd Treth Plant?
- Cyfrifo fy nyfarndal credyd treth
- Sut ydwyf yn cyfrifo fy incwm blynyddol ar gyfer
- dibenion credyd treth?
- Defnyddio'r tablau i gyfrifo'ch dyfarndal
- Sut ydwyf yn hawlio credydau treth?
- Ar ddiwedd y flwyddyn dreth
- Beth os yw fy amgylchiadau yn newid yn ystod y flwyddyn dreth?
- Beth sy'n digwydd pe gordalid credydau treth imi?19
- Credydau treth a mathau eraill o gymorth ar gyfer teuluoedd
- ar incymau isel
- Cysylltiadau ar gyfer rhagor o wybodaeth a chyngor

# Beth yw credydau treth?

Y mae llawer o bobl hunan-gyflogedig yn gallu hawlio cymorth ariannol ychwanegol ar ffurf credydau treth. Y mae yna ddau gredyd treth sy'n cynnig cymorth ariannol i deuluoedd - Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant.

Fe ellir hawlio **Credyd Treth Gwaith** gan unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn ac sy'n gweithio (gan gynnwys hunan-gyflogaeth) am o leiaf 16 o oriau'r wythnos. Fe all rhai pobl hunan-gyflogedig eraill nad oes ganddynt blant hefyd wneud cais.

Fe ellir hawlio Credyd Treth Plant gan deuluoedd sydd â phlant, ni waeth pa un ai a ydych yn gweithio ai peidio.

Fe gaiff y credydau hyn eu gweinyddu gan Swyddfa Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (y cyfeirir ati yma fel y Swyddfa Gyllid) ac, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, y mae'n bosibl bod yn gymwys am y naill neu'r llall neu'r ddau. Er bod credydau treth yn seiliedig ar incwm, ni ddylech dybio bod gennych ormod o arian i fod yn gymwys. Yr ydych yn sicr o gael rhywfaint o Gredyd Treth Plant cyn belled â bod eich incwm yn llai na £58,000 (£66,000 os oes gennych faban o dan un flwydd oed). Mewn rhai amgylchiadau, (er enghraifft, y mae gennych fwy nag un plentyn ar Lwfans Byw i'r Anabl [LBA] ac y mae gennych gostau gofal plant cymwys sylweddol), fe allech gael rhywfaint o gredydau treth hyd yn oed os yw'ch incwm uwchlaw'r ffigurau hyn.

Y bwriad yw bod y daflen wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel canllaw cyffredinol ar gyfer teuluoedd sy'n gofalu am blentyn sydd ag anabledd ble y mae rhiant yn hunan-gyflogedig. Y mae'n cynnwys tablau 'cyfrifydd parod' i roi syniad ichi o faint o gredyd treth y dylai teulu yn eich amgylchiadau chi eu derbyn. Os hoffech gael dadansoddiad llawn o'ch hawl tebygol, neu os yr hoffech gael rhagor o wybodaeth am gredydau treth, a fyddech cystal â ffonio'n llinell gymorth radffon. Yr ydym yn cyflogi arbenigwyr hawliau lles sy'n gallu darparu cyngor manwl ynglŷn ag unrhyw agwedd o gais am gredyd treth.

## Pwy a gynhwysir yn fy nghais?

Y mae'n rhaid i gyplau wneud cais ar y cyd. Y mae hyn yn cynnwys cyplau sy'n byw gyda chymar o'r un rhyw. Fe allwch hawlio dros blentyn sydd fel rheol yn byw gyda chi, hyd at y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 16 mlwydd oed. Fe allwch hefyd hawlio dros berson ifanc hyd at 19 mlwydd oed ble y maent ar gwrs llawn amser o addysg nad yw'n addysg uwch neu mewn hyfforddiant di-dâl yn y gwaith. Fe ellir ymestyn hyn hyd at ben-blwydd y person ifanc yn 20 mlwydd oed, cyn belled â'u bod yn cwblhau cwrs addysg neu hyfforddiant y gwnaethant ei ddechrau cyn cyrraedd 19 mlwydd oed.

Os yw person ifanc yn dechrau hawlio rhai budd-daliadau yn eu rhinwedd eu hunain (megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm neu Fudd-dal Analluogrwydd), fe fydd hyn yn golygu na allwch mwyach dderbyn credydau treth drostynt. Cysylltwch â'r llinell gymorth am ragor o gyngor parthed y mater hwn. Fe ddylech hefyd ymofyn rhagor o gyngor os yw'ch plentyn yn mynd dan ofal a ariannir gan yr awdurdod lleol.

## A Allaf Hawlio Credyd Treth Gwaith?

Er mwyn hawlio Credyd Treth Gwaith, y mae'n rhaid ichi fod yn:

- 16 mlwydd oed neu hŷn; ac yn
- byw yn y Deyrnas Unedig a heb fod yn ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo (gyda rhai eithriadau); a
- bod yn gyfrifol am o leiaf un plentyn a hefyd yn cael eich trin fel pe baech yn gweithio 16 o oriau neu fwy yr wythnos.

Fe gewch eich trin fel pe baech yn gweithio am y nifer o oriau yr ydych 'yn perfformio fel rheol am dâl neu gan ddisgwyl tâl'. Y mae hyn yn cynnwys gwaith a wnaed ac y rhoddwyd bil amdano i'r cwsmer, a'r amser a dreuliwyd ar 'weithgareddau sy'n angenrheidiol i'ch cyflogaeth'. Fe allai hyn gynnwys gwibdeithiau at gyfanwerthwyr, ymweliadau â chleientydd dichonol, amser a dreuliwyd yn glanhau adeiladau'r busnes neu'n glanhau cerbyd a ddefnyddir fel rhan o'r busnes, yn ogystal ag amser a dreuliwyd yn hysbysebu, yn canfasio neu'n cadw cyfrifon. Y mae'n rhaid i'r gwaith yr ydych yn ei wneud fod 'yn y disgwyliad o dâl'. Y mae hyn yn golygu mwy na dim ond gobaith y gwneir tâl rywbryd yn y dyfodol. Fe ddylai fod yna debygolrwydd, yn hytrach na dim ond posibilrwydd y gwneir tâl. Os ydych yn rhesymol ddisgwyl tâl am waith a wnaed, ond nad yw'r cwsmer yn talu, yna y mae'r amod wedi'i fodloni. Fodd bynnag, os gwyddoch cyn dechrau'r gwaith bod tâl yn annhebygol o gael ei wneud, fe gewch hi'n anodd diwallu'r amod hwn.

Y mae rhai pobl hunan-gyflogedig yn gweithio oriau afreolaidd, a all amrywio o wythnos i wythnos. Yn y cyfryw achosion, fe wna'r Swyddfa Gyllid ofyn ichi am fanylion yr holl oriau yr ydych wedi bod yn gweithio er mwyn ceisio ag asesu'r hyn yw'ch oriau wythnosol 'normal'.

Os ydych wedi rhoi'r gorau i **weithio** oherwydd eich bod yn cymryd absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu oherwydd eich bod yn wael neu'n analluog i weithio, fe allech er hynny gael eich trin fel pe baech yn gweithio am fwy nag 16 o oriau am gyfnod dros dro o absenoldeb. Cysylltwch â'r llinell gymorth am ragor o fanylion.

**Dalier sylw**, y mae rhai pobl hunan-gyflogedig nad oes ganddynt blant (er enghraifft, pobl hunan-gyflogedig sydd ag anableddau) hefyd yn gallu hawlio Credyd Treth Gwaith. Os nad ydych yn gofalu am blentyn, fe ddylech ymofyn cyngor oddi wrth ganolfan gynghori neu wasanaeth hawliau lles.

## Arian ychwanegol mewn Credyd Treth Gwaith ar gyfer costau gofal plant

Os ydych yn gwario arian ar ofal plant pan ydych yn gweithio, fe all eich cais am Gredyd Treth Gwaith gynnwys cymorth gyda 'chostau gofal plant cymwys'. Er mwyn i'ch costau gofal plant gael eu cymryd i ystyriaeth, y mae'n rhaid ichi fod naill ai'n:

- rhiant unigol sy'n gweithio o leiaf 16 o oriau'r wythnos; neu
- gwpl sydd ill dau'n gweithio 16 o oriau neu fwy yr wythnos; neu
- gwpl ble y mae un aelod yn gweithio 16 o oriau neu fwy yr wythnos ac y mae'r llall yn derbyn rhai budd-daliadau anabledd/analluogrwydd (neu y maent mewn ysbyty neu mewn carchar).

**Pa fath o ofal plant y gellir ei gymryd i ystyriaeth?**
Dim ond gofal plant cofrestredig neu wedi'i gymeradwyo y gellir ei gymryd i ystyriaeth. Y mae hyn yn cynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig, meithrinfeydd a chynlluniau eraill a gynhelir gan ddarparwyr wedi'u cymeradwyo. Fe ellir hefyd gyfrif gofal yng nghartref y plentyn ei hun os caiff ei ddarparu gan rywun sy'n gofrestredig neu wedi'i gymeradwyo. Ni chaiff gofal plant a ddarperir gan berthynas yng nghartref y plentyn ei gyfrif - hyd yn oed os yw'r perthynas hwnnw'n ofalwr plant wedi'i gymeradwyo. Yn ychwanegol, ni allwch gael cymorth tuag at ofal plant a ddarperir gan berthynas, yng nghartref y perthynas, oni bai eu bod hefyd yn darparu gofal i blant eraill nad ydynt yn perthyn iddynt. Os yw plentyn ar LBA neu wedi'i gofrestru fel dall, fe ellir cynnwys costau gofal plant tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 16. Neu fel arall, fe ellir ond cynnwys costau gofal plant tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 15.

**Swm y costau gofal plant y gellir ei gynnwys**
Uchafswm y gofal plant y gellir ei gymryd i ystyriaeth yw £175 yr wythnos dros un plentyn, a £300 yr wythnos dros ddau neu fwy o blant. Dim ond 80 y cant o gostau gofal plant y gellir eu talu. Y mae hyn yn golygu mai'r swm mwyaf y gellir mewn gwirionedd ei gynnwys tuag at gostau gofal plant yw £140 yr wythnos (80 y cant o £175) dros un plentyn a £240 yr wythnos (80 y cant o £300) dros ddau neu fwy o blant. Y mae'n taflen wybodaeth am 'Canfod a thalu am ofal plant' ar gael am ddim oddi wrth y llinell gymorth.

# A Allaf Hawlio Credyd Treth Plant

Er mwyn hawlio Credyd Treth Plant, y mae'n rhaid ichi fod yn:

- 16 mlwydd oed neu hŷn; ac yn
- byw yn y Deyrnas Unedig a heb fod yn ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo (gyda rhai eithriadau) a bod â'r hawl i aros yn y Deyrnas Unedig; a
- bod yn gyfrifol am un neu fwy o blant dibynnol.

Fe ellir hawlio Credyd Treth Plant, ni waeth pa un ai a ydych yn gweithio ai peidio, ac fe'i telir yn ychwanegol at Fudd-dal Plant. Fe all swm y Credyd Treth Plant yr ydych yn ei dderbyn fod yn uwch os oes gennych blentyn ar LBA. Y mae hyn oherwydd bod yna swm ychwanegol, a adwaenir fel yr 'elfen anabledd', yn cael ei ychwanegu at eich cyfrifiad credyd treth dros bob plentyn sydd ar LBA neu sydd wedi'i gofrestru fel dall. Os yw'ch plentyn yn cael cyfradd uchaf elfen gofal y LBA, fe ychwanegir 'elfen anabledd difrifol' arall. Fe all Credyd Treth Plant naill ai cael ei dalu ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â Chredyd Treth Gwaith.

# Sut y telir credydau treth?

Fe delir Credyd Treth Gwaith (ac eithrio unrhyw elfen o ofal plant) i'r rhiant sy'n gweithio. Y mae Credyd Treth Plant ac unrhyw Gredyd Treth Gwaith tuag at gostau gofal plant yn cael eu talu i brif ofalwr y plentyn. Y mae taliadau fel arfer drwy drosglwyddo uniongyrchol i gyfrif banc. Fe allwch ddewis taliadau wythnosol neu bob pedair wythnos.

# Cyfrifo fy nyfarndal credyd treth

Y mae swm y credyd treth yr ydych yn ei dderbyn yn dibynnu ar amgylchiadau personol eich teulu ac ar eich incwm blynyddol crynswth.

Yr amgylchiadau personol a gymrir i ystyriaeth yw:

**ar gyfer Credyd Treth Gwaith**

- pa un ai a ydych yn rhiant unigol neu'n aelod o gwpl neu beidio;
- pa un ai a ydych yn gweithio 30 o oriau neu fwy'r wythnos (y mae hi fel arfer yn bosibl ychwanegu eich oriau chi a'ch cymar gyda'i gilydd);
- pa un ai a oes arnoch anabledd;
- pa un ai a ydych chi neu'ch cymar yn cael cyfradd uchel elfen gofal y LBA;
- pa un ai a oes gennych gostau gofal plant cymwys;
- pa un ai a ydych yn 50 mlwydd oed neu hŷn ac wedi bod yn ddiweddar ar rai budd-daliadau neilltuol.

ar gyfer Credyd Treth Plant

- nifer y plant dibynnol sydd gennych;
- pa un ai a oes gennych faban o dan un flwydd oed;
- nifer y plant sy'n cael unrhyw gyfradd LBA neu sydd wedi'u cofrestru fel dall;
- nifer y plant sy'n cael cyfradd uchel elfen gofal y LBA.

# Sut y mae incwm yn effeithio ar ddyfarndal credyd treth

Fe fydd eich hawl i gael credydau treth hefyd yn dibynnu ar eich incwm trethadwy blynyddol. Os ydych yn aelod o gwpl, yna fe gaiff incwm eich cymar ei gyfrif hefyd. Nid yw incwm plentyn dibynnol byth yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

Y mae'ch dyfarndal credyd treth fel arfer yn cael ei asesu ar eich incwm o'r flwyddyn dreth flaenorol. Fe olyga hyn mai os yw'ch incwm blynyddol yn cynyddu, ni fydd fel rheol yn cael effaith ar eich dyfarndal credyd treth tan ddechrau'r flwyddyn dreth newydd. Yr unig eithriad i hyn yw os yw'ch incwm am y flwyddyn gyfredol yn debygol o fod yn fwy na'ch incwm am y flwyddyn flaenorol o fwy na £25,000. Yn y cyfryw amgylchiadau, fe ddefnyddir incwm amcangyfrifedig y flwyddyn gyfredol, namyn £25,000.

**Beth os disgwyliaf i fy incwm am y flwyddyn gyfredol fod yn is na 'llynedd?**
Ble'r ydych yn disgwyl gostyngiad yn eich incwm blynyddol, fe ellir seilio'ch dyfarndal credyd treth ar amcangyfrif o'ch incwm tebygol am y flwyddyn gyfredol

yn hytrach nag ar yr incwm am y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, cofiwch, os gwelwch yn dda, fod eich dyfarndal credyd treth yn un dros dro ar y cychwyn. Ar ddiwedd y flwyddyn dreth, unwaith yr ydych wedi darparu manylion ynglŷn â'ch gwir incwm, fe fydd y Swyddfa Gyllid wedyn yn cwblhau'ch dyfarndal am y flwyddyn (gweler yr adran ddiweddarach am 'Ar ddiwedd y flwyddyn dreth', tudalen 16). Os na fyddant wedi talu digon ichi, fe fydd arnynt ôl-ddyled ichi, neu os ydynt wedi talu gormod ichi, y maent yn debygol o adennill y gordaliad. Gyda hyn mewn golwg, y mae'n bwysig darparu amcangyfrifiad sydd mor fanwl-gywir ag y gallwch o'ch incwm am y flwyddyn gyfredol. Os ydych eisiau lleihau hyd yr eithaf y risg o ordaliad, y mae'n fuddiol darparu ffigwr sydd ychydig yn uwch na'r hyn yr ydych mewn gwirionedd yn disgwyl ei dderbyn.

Hyd yn oed os credwch fod eich incwm yn rhy uchel i gael credydau treth, y mae eto i gyd yn fuddiol hawlio. Fe fydd yn diogelu'ch hawl i gael credydau treth wedi'u hôl-ddyddio os cewch ostyngiad annisgwyl mewn incwm yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fe ellir ond ôl-ddyddio ceisiadau am gredydau treth fel arfer am dri mis, ac felly fe fydd gwneud cais amddiffynnol ar ddechrau'r flwyddyn yn sicrhau nad ydych ar eich colled os yw'ch incwm yn gostwng yn annisgwyl yn ddiweddarach

## Sut ydwyf yn cyfrifo fy incwm blynyddol er dibenion credyd treth?

Fel rheol gyffredinol, y mae incwm sy'n drethadwy'n cael ei gymryd i ystyriaeth. Os oes gennych ŵr/gwraig/cymar, cofiwch gynnwys eu hincwm.

**Cam Un**
Ychwanegwch gyda'i gilydd:

- incwm pensiwn;
- incwm buddsoddiad (er enghraifft, incwm trethadwy o gynilion a chyfranddaliadau);
- incwm eiddo (rhent o eiddo ble nad yw hwn yn cael ei gynnal fel rhan o fusnes. Os ydych yn rhentu eiddo fel rhan o fusnes, yna fe gaiff hyn ei drin fel incwm masnachu o hunan-gyflogaeth yn lle hynny);
- incwm o dramor;
- incwm tybiannol (incwm y cewch eich trin fel ei fod gennych gan y Swyddfa Gyllid. Er enghraifft, fe all hyn fod yn berthnasol ble'r ydych wedi amddifadu'ch hun o incwm er mwyn hawlio mwy o gredyd treth, ble y mae gennych lai o enillion neu enillion sydd wedi'u hepgor, ac y gallai'r person sy'n derbyn y gwasanaeth fod wedi fforddio talu'r gyfradd lawn);

Os yw'r cyfanswm yn £300 neu'n llai, anwybyddwch ef. Os yw'n fwy, didynnwch y £300 cyntaf.

**Cam Dau**
Ychwanegwch gyda'i gilydd:

- unrhyw enillion crynswth (hynny yw, os oes gennych chi neu'ch gŵr/gwraig/cymar unrhyw enillion fel cyflogai);
- incwm nawdd cymdeithasol trethadwy (y mae rhai budd-daliadau, megis Lwfans Gofalwr, yn drethadwy);
- incwm myfyrwyr;
- amrywiol incymau trethadwy.

**Cam Tri**
Ychwanegwch gyda'i gilydd y symiau o gamau un a dau.

**Cam Pedwar**
Gweithiwch allan eich incwm masnachu o hunan-gyflogaeth (gweler tudalen 9). Ychwanegwch y ffigwr hwn at y swm yng ngham tri. Os oes gennych golled fasnachu, tynnwch ef oddi wrth y ffigwr yng ngham tri.

Yn olaf, didynnwch unrhyw:

- taliadau / comisiwn arnewid y banc ar unrhyw incwm a dderbyniwyd mewn arian cyfred eraill;
- rhodd cymorth crynswth, cyflogres sy'n rhoi rhoddion neu roddion rhoi-fel-yr-enillwch yn y flwyddyn gyfredol;
- cyfraniadau pensiwn crynswth.

# Beth yw incwm masnachu?

Yn gyffredinol, incwm masnachu yw'r swm o'ch elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn dreth. Os ydych yn bartner mewn busnes, yna hwn yw'ch elw trethadwy o'ch cyfran o'ch busnes a gaiff ei gyfrif. Y mae 'elw trethadwy' yn cael eu cyfrifo bron yn yr un modd ag y maent ar gyfer dibenion treth incwm, gyda'r eithriad nad oes yna reolau arbennig yn caniatáu arlunwyr creadigol, amaethwyr a garddwyr masnachol i gyfartalu pwyntiau dros ddwy flynedd.

Fe gaiff eich incwm masnachu'i ddangos ar eich ffurflen dreth am y flwyddyn berthnasol. Os nad ydych eto wedi cyflwyno'ch ffurflen dreth, y mae modd lawrlwytho'r nodiadau sy'n dod gyda'r ffurflen hawlio credydau treth yn http://tinyurl.com/26dfnd sy'n egluro sut i weithio allan eich incwm masnachu. Yn y bôn, yr ydym yn didynnu treuliau busnes a ganiateir o'r trosiant blynyddol i gael ffigwr ar gyfer elw trethadwy. Y mae mwy o gyngor manwl ynglŷn â chyfrifo incwm masnachu ar gael oddi wrth Linell Gymorth Hunan-asesu y Swyddfa Gyllid ar
Ffôn: 0845 9000 444.

## Colled Fasnachu

Os yw'ch busnes wedi gwneud colled, yna'ch incwm ar gyfer y flwyddyn dreth yw dim, oni bai bod gennych incwm arall a gymrir i ystyriaeth am y flwyddyn honno. Os oes gennych incwm arall y gellir ei asesu, didynnwch y golled fasnachu oddi wrth yr incwm arall hwnnw. Os nad oes gennych ddigon o incwm arall i osod yn erbyn yr holl swm o unrhyw golled, fe all unrhyw golled sy'n weddill gael ei ddwyn ymlaen a'i ddidynnu oddi wrth elw o'r un fasnach ym mlynyddoedd y dyfodol.

Fe ddylai gweithio allan eich incwm trethadwy ar gyfer y blynyddoedd blaenorol a chyfredol fod yn gymharol syml, cyn belled â bod eich cyfnod cyfrifo'n gorffen rhwng yr 31ain o Fawrth a'r 5ed o Ebrill. Fodd bynnag, os yw'ch cyfnod cyfrifo'n gorffen ar ddyddiad gwahanol, y mae arnoch angen sicrhau eich bod yn seilio'ch incwm blynyddol ar y cyfnod cyfrifo cywir (gweler tudalen 10).

## Cyfnodau cyfrifo ac asesu incwm masnachu ar gyfer credydau treth

Y mae credydau treth yn cael eu dyfarnu am y flwyddyn dreth o Ebrill i Ebrill ond y mae gan rai busnesau gyfnodau cyfrifo nad ydynt yn unol â'r flwyddyn dreth. Wrth gyfrifo enillion oddi wrth hunan-gyflogaeth, y mae 'incwm y flwyddyn flaenorol' mewn gwirionedd yn golygu 'elw trethadwy yn y cyfnod cyfrifo sy'n gorffen cyn dechrau blwyddyn dreth eleni'. Y mae 'incwm y flwyddyn gyfredol' yn golygu'r elw trethadwy yn y cyfnod cyfrifo sy'n gorffen yn ystod y flwyddyn dreth hon.

Os yw'ch cyfnod cyfrifo'n gorffen rhwng yr 31ain o Fawrth a'r 5ed o Ebrill, yna fe fydd yn cyfateb i'r flwyddyn dreth. Fodd bynnag, os yw'ch cyfnod cyfrifo'n gorffen yng nghynt yn y flwyddyn dreth, yna fe fydd gweithio allan yr incwm blynyddol cywir ychydig yn fwy cymhleth.

Er enghraifft, os yw'ch cyfnod cyfrifo'n gorffen ar yr 31ain o Orffennaf, yna, ar gyfer dyfarndal credyd treth sy'n cwmpasu Ebrill 2007-Ebrill 2008, fe fydd eich incwm am y flwyddyn flaenorol yn cael ei seilio ar y cyfnod cyfrifo Awst 20005 – Gorffennaf 2006 (y cyfnod cyfrifo sy'n gorffen yn y flwyddyn cyn Ebrill 2007). Fe fydd incwm y flwyddyn gyfredol yn cael ei seilio ar y cyfnod cyfrifo Awst 2006 – Gorffennaf 2007 (y cyfnod cyfrifo sy'n gorffen o fewn y flwyddyn Ebrill 2007 – Ebrill 2008).

Os oes gennych gyfnod cyfrifo sy'n gorffen yn gynnar yn y flwyddyn dreth, fe all problemau godi os yw'ch incwm oddi wrth hunan-gyflogaeth yn gostwng yn ddisymwth yn annisgwyl. Yn y cyfryw amgylchiadau, y mae'n bosibl profi incwm is o'ch busnes, ochr yn ochr â hawl credyd treth isel a biliau treth uchel.

**Enghraifft**
Y mae Ms Khan yn cynnal ei busnes ei hun ac y mae ganddi gyfnod cyfrifo sy'n gorffen ar yr 31ain o Orffennaf. Y mae hi'n hawlio credydau treth, ac am y flwyddyn Ebrill 2007 – Ebrill 2008, y mae'i dyfarndal hi'n cael ei seilio ar ei hincwm am y flwyddyn flaenorol – sy'n golygu'r cyfnod cyfrifo Awst 2005-Gorffennaf 2006. Yn niwedd 2007, y mae busnes Ms Khan yn colli contract sylweddol ac y mae'i helw'n gostwng yn sylweddol. Os yw Ms Khan yn gofyn am ei dyfarndal gael ei seilio ar amcangyfrifiad o'i hincwm am y flwyddyn gyfredol yn lle hynny, ni fydd hyn o gymorth. Y mae hyn oherwydd bod ei hincwm am y flwyddyn gyfredol mewn gwirionedd wedi'i seilio ar y cyfnod cyfrifo Awst 2006 – Gorffennaf 2007. Gan fod y gostyngiad yn incwm Ms Khan wedi digwydd ar ôl Gorffennaf 2007, ni ellir ei gymryd i ystyriaeth wrth asesu'i dyfarndal credyd treth ar gyfer Ebrill 2007 – Ebrill 2008.

Y mae'n bosibl newid diwedd eich blwyddyn cyfrifo i rhwng yr 31ain o Fawrth a'r 5ed o Ebrill. Fodd bynnag, fe ddylech siarad gyda'ch cyfrifydd am hyn yn fanylach gan y gall gwneud y fath newid gymryd amryw o flynyddoedd. Hefyd, fe all fod yna resymau eraill pam bod cyfnod cyfrifo penodol yn neilltuol o addas i'ch busnes. Os nad oes gennych gyfrifydd, fe allwch ymofyn cyngor oddi wrth eich swyddfa dreth leol.

# Pa incwm a anwybyddir?

Y mae rhai incymau'n cael eu hanwybyddu'n gyfan gwbl er dibenion credydau treth. Y mae'r rhain yn cynnwys:

- taliadau cynhaliaeth
- y rhan fwyaf o fathau o incwm myfyrwyr;
- taliadau mabwysiadu / maethu (ond nid unrhyw elfen o dâl);
- Lwfans Byw i'r Anabl;
- Lwfans Gweini;
- Budd-dal Plant;
- Lwfans Gwarcheidwad;
- Cymhorthdal Incwm;
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm;
- Taliad Profedigaeth;
- Lwfans Mamolaeth;
- Y £100 cyntaf yr wythnos o unrhyw Dâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol neu Dâl Mabwysiadu Statudol;
- Lwfans Anabledd Difrifol;
- Budd-dal Analluogrwydd cyfradd is hirdymor;
- Budd-dal Analluogrwydd hirdymor trosiannol (hynny yw, yn cael tâl ers cyn y 13eg o Ebrill, 1995);
- Budd-dal Anafiadau Diwydiannol;

- incwm o rent oddi wrth eiddo o dan gynllun rhentu ystafell (y mae hyn yn caniatáu ichi rentu llety wedi'i ddodrefnu yn eich cartref ac ennill hyd at £4,250 y flwyddyn yn ddi-dreth).

Nid yw'r rhestr hon yn un drwyadl – y mae rhai mathau eraill o incwm yn cael eu hanwybyddu.

## Beth pe bae gennyf lawer o gyfalaf neu gynilion?

Nid oes yna derfyn cyfalaf sy'n rhwystro cais am gredydau treth. Yn hytrach, y mae unrhyw incwm trethadwy yr ydych yn ei dderbyn o'ch cyfalaf yn cael ei gyfrif; er enghraifft, llog ar eich cynilion (oni bai bod hyn yn gyfrif cynilion di-dreth, megis cynllun ISA).

## Faint o gredyd treth a gaf?

Y mae'r Swyddfa Gyllid yn defnyddio amgylchiadau'ch teulu i weithio allan 'uchafswm hawl credydau treth'. Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, y mae gennych yr hawl awtomatig i'r uchafswm o Gredyd Treth Plant. Neu fel arall, y mae arnoch angen cymharu'ch incwm trethadwy blynyddol i drothwy penodedig. Y mae hwn yn £14,495 os ydych ond yn gymwys am Gredyd Treth Plant, a £5,220 os ydych hefyd yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith.

Os yw'ch incwm ar neu islaw'r trothwy, fe wnewch dderbyn yr uchafswm o ddyfarndal credydau treth i'ch amgylchiadau. Os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn uwch na'r trothwy perthnasol, fe gaiff y dyfarndal ei ostwng - am bob £1 o incwm sydd gennych dros y trothwy, y mae uchafswm eich hawl credyd treth yn cael ei ostwng 37 ceiniog. Fodd bynnag, fe warantir o leiaf £545 y flwyddyn ichi cyn belled â bod eich incwm trethadwy blynyddol yn llai na £50,000. Fe adwaenir y taliad hwn yn elfen teulu o Gredyd Treth Plant. Os yw'ch incwm yn fwy na £50,000 y flwyddyn, y mae'r elfen teulu'n cael ei ostwng yn raddol.

## Defnyddio'r tablau i gyfrifo'ch dyfarndal

Y mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys amryw o dablau cyfrifydd parod i'ch cynorthwyo chi i amcangyfrif swm y credyd treth y gall fod gennych hawl iddo. Er bod credydau treth fel arfer yn cael eu cyfrifo fel dyfarndal blynyddol, fe ddengys y tablau y symiau cyfwerth wythnosol. Y mae'r holl symiau'n cael eu talgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

**Os nad ydych na chi na'ch cymar yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, defnyddiwch Dabl 1**
Y mae yna golofnau gwahanol, yn dibynnu ar nifer y plant sydd gennych a faint ohonynt sy'n anabl. Y mae plentyn yn cael ei gategoreiddio fel anabl os ydyw

wedi'i gofrestru fel dall neu os ydyw'n derbyn LBA ar unrhyw gyfradd. Defnyddiwch y golofn briodol i gael syniad o faint o gredydau treth y gallai teulu yn eich amgylchiadau eu derbyn (cofiwch, fe roddir y swm wythnosol yn y tablau).

**Os yw naill ai chi neu'ch cymar yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, y mae'r tabl y dylech droi ato yn dibynnu** ar nifer y plant yn eich teulu a faint ohonynt sy'n anabl. Y mae plentyn yn cael ei gategoreiddio fel anabl os ydyw wedi'i gofrestru fel dall neu os ydyw'n derbyn LBA.

- Os oes gennych un plentyn ac y mae'r plentyn hwnnw'n anabl, defnyddiwch Dabl 2;
- Os oes gennych ddau blentyn ac y mae un ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 3;
- Os oes gennych ddau blentyn ac y mae'r ddau ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 4;
- Os oes gennych dri phlentyn ac y mae un ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 5;
- Os oes gennych dri phlentyn ac y mae dau ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 6.

**Defnyddio'r tablau os oes gennych gostau gofal plant cymwys**
Fe all faint o gredydau treth yr ydych yn eu derbyn fod yn uwch os ydych yn talu am ofal plant cymwys. Y mae gan Dablau 2-6 golofnau ychwanegol yn dangos y dyfarndal credydau treth y gallai rhieni dderbyn ble y maent yn talu'r uchafsymiau tuag at ofal plant cymwys. Gweler yr adran gynharach ynglŷn ag 'Arian ychwanegol yn Credyd Treth Gwaith ar gyfer costau gofal plant' am fanylion ynglŷn â pha bryd y caiff gofal plant ei gyfrif. Nid yw cymorth gyda chostau gofal plant yn bosibl os ydych ond yn gymwys am Gredyd Treth Plant.

**Nodiadau am y Tablau**

*Nodyn am Dabl 1:
Os oes gennych faban sydd o dan un flwydd oed, fe allwch fod yn gymwys am daliadau uwch.

Os oes gennych blentyn sy'n derbyn cyfradd uwch yr elfen gofal LBA, fe allwch fod yn gymwys am daliadau uwch.

**Nodiadau am Dablau 2,3,4,5 a 6:
Y mae'r tablau hyn yn rhagdybio bod teuluoedd sydd ag incymau o £10,000 ac uwch yn gweithio am 30 o oriau'r wythnos neu fwy.

Fe ellir gwneud taliadau uwch i deuluoedd sydd â gweithiwr anabl, neu gyda baban sy'n llai nag un flwydd oed, neu gyda phlentyn ar gyfradd uchel yr elfen gofal LBA, neu sydd â rhywun 50 mlwydd oed neu hŷn sy'n dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar rai budd-daliadau neilltuol.

**Tabl 1: cymwys ar gyfer credyd treth plant yn unig***

| Incwm trethadwy blynyddol | Teulu gydag un plentyn sy'n anabl<br><br>(£) wythnosol | Teulu gyda dau blentyn, y mae un yn anabl<br>(£) wythnosol | Teulu gyda dau blentyn, y mae'r ddau yn anabl<br>(£) wythnosol | Teulu gyda thri phlentyn, y mae un yn anabl<br>(£) wythnosol | Teulu gyda thri phlentyn, y mae dau yn anabl<br>(£) wythnosol |
|---|---|---|---|---|---|
| £14,495 a llai | 92 | 128 | 175 | 163 | 210 |
| £20,000 | 53 | 89 | 136 | 124 | 171 |
| £25,000 | 18 | 53 | 100 | 89 | 136 |
| £30,000 | 10 | 18 | 64 | 53 | 100 |
| £35,000 | 10 | 10 | 29 | 17 | 64 |
| £40,000 | 10 | 10 | 10 | 10 | 29 |
| £45,000 – £50,000 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| £55,000 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |

**Tabl 2: teulu sy'n gweithio sydd ag un plentyn, ac y mae'r plentyn hwnnw yn anabl****

| Incwm trethadwy blynyddol | Dim costau gofal plant cymwys<br>(£) wythnosol | Yn cynnwys uchafswm costau gofal plant<br>(£) wythnosol |
|---|---|---|
| £5,220 neu lai | 158 | 298 |
| £10,000 | 138 | 278 |
| £15,000 | 102 | 242 |
| £20,000 | 67 | 207 |
| £25,000 | 31 | 171 |
| £30,000 | 10 | 136 |
| £35,000 | 10 | 100 |
| £40,000 | 10 | 64 |
| £45,000 | 10 | 29 |
| £50,000 | 10 | 10 |
| £55,000 | 4 | 4 |

**Tabl 3: teulu sy'n gweithio sydd â dau blentyn, ac y mae un yn anabl****

| Incwm trethadwy blynyddol | Dim costau gofal plant cymwys (£) wythnosol | Yn cynnwys uchafswm gofal plant ar gyfer un plentyn (£) wythnosol | Yn cynnwys uchafswm gofal plant ar gyfer dau neu fwy o blant (£) wythnosol |
|---|---|---|---|
| £5,220 neu lai | 194 | 334 | 434 |
| £10,000 | 173 | 313 | 413 |
| £15,000 | 138 | 278 | 378 |
| £20,000 | 102 | 242 | 342 |
| £25,000 | 67 | 207 | 307 |
| £30,000 | 31 | 171 | 271 |
| £35,000 | 10 | 135 | 235 |
| £40,000 | 10 | 100 | 200 |
| £45,000 | 10 | 64 | 164 |
| £50,000 | 10 | 29 | 129 |
| £55,000 | 4 | 4 | 93 |

**Tabl 4: teulu sy'n gweithio sydd â dau blentyn, ac y mae'r ddau yn anabl****

| Incwm trethadwy blynyddol | Dim costau gofal plant cymwys (£) wythnosol | Yn cynnwys uchafswm gofal plant ar gyfer un plentyn (£) wythnosol | Yn cynnwys uchafswm gofal plant ar gyfer dau neu fwy o blant (£) wythnosol |
|---|---|---|---|
| £5,220 neu lai | 241 | 381 | 481 |
| £10,000 | 220 | 360 | 460 |
| £15,000 | 185 | 325 | 425 |
| £20,000 | 149 | 289 | 389 |
| £25,000 | 114 | 254 | 354 |
| £30,000 | 78 | 218 | 318 |
| £35,000 | 42 | 182 | 282 |
| £40,000 | 10 | 147 | 247 |
| £45,000 | 10 | 11 | 211 |
| £50,000 | 10 | 76 | 176 |
| £55,000 | 4 | 40 | 140 |

**Tabl 5: teulu sy'n gweithio gyda thri phlentyn, ac y mae un yn anabl****

| Incwm trethadwy blynyddol | Dim costau gofal plant cymwys<br><br>(£) wythnosol | Yn cynnwys yr uchafswm gofal plant am un plentyn<br><br>(£) wythnosol | Yn cynnwys yr uchafswm gofal plant am ddau neu fwy o blant<br>(£) wythnosol |
|---|---|---|---|
| £5,220 neu lai | 229 | 369 | 469 |
| £10,000 | 209 | 349 | 449 |
| £15,000 | 173 | 313 | 413 |
| £20,000 | 138 | 278 | 378 |
| £25,000 | 102 | 242 | 342 |
| £30,000 | 67 | 207 | 307 |
| £35,000 | 31 | 171 | 271 |
| £40,000 | 10 | 135 | 235 |
| £45,000 | 10 | 100 | 200 |
| £50,000 | 10 | 64 | 164 |
| £55,000 | 4 | 29 | 129 |

**Tabl 6: teulu sy'n gweithio gyda thri phlentyn, y mae dau ohonynt yn anabl****

| Incwm trethadwy blynyddol | Dim costau gofal plant cymwys<br><br>(£) wythnosol | Yn cynnwys yr uchafswm gofal plant am un plentyn<br><br>(£) wythnosol | Yn cynnwys yr uchafswm gofal plant am ddau neu fwy o blant<br>(£) wythnosol |
|---|---|---|---|
| £5,220 neu lai | 276 | 416 | 516 |
| £10,000 | 256 | 396 | 496 |
| £15,000 | 220 | 360 | 460 |
| £20,000 | 185 | 325 | 425 |
| £25,000 | 149 | 289 | 389 |
| £30,000 | 113 | 253 | 353 |
| £35,000 | 78 | 218 | 318 |
| £40,000 | 42 | 182 | 282 |
| £45,000 | 10 | 147 | 247 |
| £50,000 | 10 | 111 | 211 |
| £55,000 | 4 | 76 | 176 |

# Sut ydwyf yn hawlio credydau treth?

Y mae Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu gweinyddu gan y Swyddfa Gyllid ac y mae'r ddau i'w hawlio ar ffurflen gais TC600. Y mae hon ar gael o'ch Swyddfa Gyllid leol neu drwy gyfrwng y Llinell Gymorth Credydau Treth:
Ffôn: 0845 300 3900
(Ffôn Testun: 0845 300 3909)

Fe ellir gwneud ceisiadau hefyd fel rheol drwy gyfrwng gwefan y Swyddfa Gyllid, ond y mae'r cyfleuster hwn wedi'i ohirio fel yr ydym yn ysgrifennu hyn.

**Ôl-ddyddio credydau treth**
Fe ellir ôl-ddyddio ceisiadau hyd at dri mis. Fel yr ydym yn ysgrifennu hyn, nid oes gan y ffurflen hawlio adran yn eich gwahodd i ofyn am ôl-ddyddio. Os ydych yn dymuno gofyn am hyn, fe ddylech naill ai atodi cais ôl-ddyddio ysgrifenedig wrth eich pecyn hawlio neu ffonio y Swyddfa Credydau Treth.

**Cael penderfyniad ynglŷn â'ch cais**
Unwaith y mae'r Swyddfa Gyllid wedi prosesu'ch cais, fe ddylent anfon hysbysiad o benderfyniad atoch. Fe fydd hyn yn amlinellu nid yn unig faint o gredydau treth a delir ichi ond hefyd yr amgylchiadau teuluol y mae'r dyfarndal wedi'i seilio arnynt (er enghraifft, eich incwm trethadwy blynyddol, cyfanrif y plant dibynnol sydd gennych, a nifer y plant a gategoreiddir fel anabl). Y mae'n bwysig eich bod yn gwirio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau'i bod yn gywir. Os nad yw'n gywir, yna fe allai arwain at naill ai tandaliad neu ordaliad o gredydau treth.

# Ar ddiwedd y flwyddyn dreth

Unwaith y byddant wedi'u dyfarnu, y mae credydau treth fel rheol yn para tan ddiwedd y flwyddyn dreth. Y mae'r Swyddfa Gyllid wedyn yn cynnal adolygiad blynyddol. Y maent yn rhoi pecyn adolygu ichi sy'n amlinellu'r manylion personol a ddefnyddir i gyfrifo'ch dyfarndal personol, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid i chi'i wirio i weld a ydyw'n gywir. Fe ofynnir ichi gwblhau ffurflen datganiad, yn cadarnhau neu'n diwygio'ch manylion, a hefyd yn cadarnhau'ch incwm trethadwy blynyddol am y flwyddyn sydd newydd orffen.

Efallai na fydd yn rhaid i bobl sydd ond yn derbyn yr elfen teulu sylfaenol o Gredyd Treth Plant gwblhau ffurflen datganiad. Os yw'ch manylion personol yn parhau heb newid ac y mae'ch incwm o fewn rhai bandiau neilltuol a amlinellir yn y pecyn adolygu, fe ddylai dyfarndal o'r elfen teulu barhau'n awtomatig. Fe ddylai'ch pecyn adolygu ei gwneud hi eglur a yw hyn yn berthnasol i chi. Fodd bynnag, os oes yna unrhyw newidiadau perthnasol wedi bod yn eich amgylchiadau, y mae'n rhaid ichi hysbysu'r Swyddfa Credydau Treth. Y mae'n rhaid i bob teulu arall gwblhau'r ffurflen datganiad.

Unwaith y bydd y Swyddfa Credydau Treth yn derbyn eich ffurflen datganiad wedi'i llenwi, fe wnânt ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynorthwyo i gyfrifo'ch dyfarndal credydau treth am y flwyddyn dreth newydd. Fe wnânt hefyd ddefnyddio'r manylion hyn i wirio a ydych chi wedi derbyn y swm cywir o gredydau treth yn y flwyddyn sydd newydd orffen. Os na thalwyd digon o gredydau treth ichi, fe ddylech dderbyn cyfandaliadau ar gyfer unrhyw ôl-ddyledion. Os talwyd gormod o gredydau treth ichi, fe all y Swyddfa Gyllid geisio ag adennill y gordaliad a dalwyd - fel arfer drwy ostwng eich dyfarndal am y flwyddyn dreth newydd (gweler yr adran ar 'Beth sy'n digwydd os gordalwyd credydau treth imi').

Y mae'n rhaid ichi ymateb i'r Swyddfa Credydau Treth erbyn terfyn amser, fel arfer yr 31ain o Awst. Os na allwch gyflenwi manylion pendant ynglŷn â'ch incwm trethadwy am y flwyddyn erbyn y dyddiad hwnnw, er enghraifft oherwydd nad yw'ch cyfrifon wedi'u cwblhau, yna y mae'n rhaid ichi ddarparu ffigwr amcangyfrifedig yn lle hynny. Fe gaiff y ffigwr amcangyfrifedig hwn wedyn ei ddefnyddio i gyfrifo dyfarndal dros dro am y flwyddyn dreth newydd. Fe fydd arnoch wedyn angen cadarnhau'ch gwir incwm trethadwy erbyn diwedd mis Ionawr (mewn geiriau eraill, yr un terfyn amser ag ar gyfer ffeilio'ch hunan-asesiad treth).

**Beth sy'n digwydd os ydwyf yn hwyr ar gyfer y terfyn amser ar gyfer dychwelyd fy natganiad credyd treth?**
Os ydych yn methu â rhoi ffigwr amcangyfrifedig erbyn terfyn amser mis Awst, fe fydd eich taliadau credyd treth yn dirwyn i ben. Fe fydd y Swyddfa Gyllid hefyd yn ceisio ag adennill unrhyw daliadau yr ydych wedi'u derbyn ers dechrau'r flwyddyn dreth newydd honno. Ble'r ydych wedi methu â rhoi amcangyfrif mewn pryd ond wedi gwneud hynny'n ddiweddarach, fe all y Swyddfa Credydau Treth gytuno i ôl-ddyddio'ch dyfarndal yn llawn, cyn belled ag y gallwch ddangos achos da dros beidio â dychwelyd y papurau mewn pryd ac yr ydych yn ymateb cyn diwedd mis Ionawr.

Os ydych yn colli terfyn amser mis Ionawr neu os gallwch ddangos achos da, fe fydd arnoch angen gwneud cais o'r newydd am gredydau treth. Fe gaiff hwn ond ei ôl-ddyddio am uchafswm o dri mis. O ganlyniad, fe fydd yn rhaid i unrhyw daliadau dros dro y gwnaethoch eu derbyn rhwng dechrau'r flwyddyn dreth a'r adeg y gwnaeth eich cais newydd ddechrau gael eu had-dalu.

Yn ychwanegol at golli credydau treth, fe all methu ag adnewyddu'ch cais mewn pryd hefyd ddenu cosb. Fe all y Swyddfa Gyllid roi cosb o hyd at £300 am fethu â chyflwyno datganiad blynyddol, yn ogystal â hyd at £60 y dydd os yw'r methiant yn parhau ar ôl i'r gosb wreiddiol gael ei gosod. Nid cosbau awtomatig yw'r rhain, ac ni chânt eu codi os oes gan y person esgus rhesymol am yr oedi a'i fod wedi adnewyddu cyn gynted â phosibl. Y mae yna hefyd £3000 o uchafgosb am

wneud datganiad gwallus yn dwyllodrus neu'n esgeulus mewn ymateb i hysbysiad diwedd blwyddyn.

## Beth os yw fy amgylchiadau'n newid yn ystod y flwyddyn dreth?

Er y bydd dyfarndal credyd treth fel rheol yn mynd tan ddiwedd y flwyddyn dreth, fe ellir ei gyfaddasu yn ystod y flwyddyn os oes yna newid perthnasol mewn amgylchiadau. Y mae'n rhaid hysbysu'r Swyddfa Credydau Treth o rai newidiadau neilltuol o fewn un mis neu fe fyddwch yn wynebu cosb o £300. Y rhain yw:

- newid yn nifer yr oedolion sy'n hawlio (er enghraifft, mynd o fod yn gwpl i riant unigol, neu fel arall);
- gostyngiad yng nghyfartaledd costau gofal plant o £10 neu fwy am o leiaf bedair wythnos yn olynol;
- os ewch dramor am fwy nag wyth wythnos (12 os ewch dramor oherwydd gwaeledd neu brofedigaeth);
- os ydych yn rhoi'r gorau i weithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos;
- os yw'ch oriau gweithio'n gostwng o 30 o oriau neu fwy i lai na 30 o oriau;
- os ydych yn rhoi'r gorau i fod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc dibynnol, er enghraifft os nad ydynt mwyach fel rheol yn byw gyda chi;
- os oes yna berson ifanc yn eich teulu yn gorffen â bod yn gymwys am gymorth drwy gyfrwng credydau treth. Er enghraifft, fe allai hyn ddigwydd oherwydd bod person ifanc yn gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu oherwydd eu bod yn dechrau hawlio Budd-dal Analluogrwydd neu Gymhorthdal Incwm yn eu rhinwedd eu hunain;
- os yw plentyn neu berson ifanc dibynnol yn marw.

Nid oes yn rhaid adrodd am newidiadau eraill mewn amgylchiadau tan ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, fe allai fod er eich lles i adrodd am rai newidiadau yng nghynt.

**Osgoi gordaliadau a thandaliadau**
Os yw newid mewn amgylchiadau yn gostwng eich dyfarndal credydau treth, y mae'r gostyngiad hwnnw yn wastad yn cael ei ôl-ddyddio yn llawn ac fe fyddwch wedi'ch gordalu. Os bydd yna newid yn arwain at gynnydd yn eich dyfarndal, yna fe allwch fethu â chael arian os nad ydych yn dweud wrthynt o fewn tri mis. Os hoffech osgoi gordaliadau neu dandaliadau, fe ddylech hysbysu'r Swyddfa Credydau Treth o unrhyw newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau, fel y maent yn digwydd. Y mae'r adran gynharach o dan y pennawd, 'Beth a gymerir i ystyriaeth wrth gyfrifo fy nyfarndal credyd treth?' yn rhoi trosolwg cryno ar y mathau o amgylchiadau sy'n effeithio ar eich dyfarndal.

**Dechrau cael LBA am y tro cyntaf neu gynnydd mewn LBA**

Er bod yna reol gyffredinol sy'n cyfyngu ar ôl-ddyddio i dri mis, y mae yna eithriadau. Os dyfarnir LBA i'ch plentyn, neu y mae dyfarndal LBA presennol iddo'n cael ei gynyddu i'r gyfradd uchel am ofal personol, fe all hyn arwain at daliadau Credyd Treth Plant ychwanegol. Pan ydych yn gwneud cais am LBA dros eich plentyn (neu'n gofyn am gynnydd mewn dyfarndal sy'n bodoli), sicrhewch eich bod yn gadael i'r Swyddfa Credydau Treth wybod. Cyn belled ag eich bod yn dweud wrthynt eich bod yn gwneud hyn ac yna'n ailgysylltu i'w hysbysu pan ydych yn cael dyfarndal, fe ellir ôl-ddyddio unrhyw gredydau treth ychwanegol yn unol â'r LBA, hyd yn oed os gall hyn fod am fwy na thri mis. Fe ddylech gymryd camau cyffelyb os oes gennych chi neu'ch cymar broblemau iechyd ac yn hawlio LBA yn eich rhinwedd eich hun.

**Newidiadau mewn incwm**

Os oes yna newid yn eich incwm, fe allwch ddewis dweud wrth y Swyddfa Gyllid yn syth neu'i adael tan ddiwedd y flwyddyn dreth. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno osgoi gordaliadau neu dandaliadau credydau treth, y mae er eich lles i ddweud am godiadau neu ostyngiadau arwyddocaol mewn incwm fel y maent yn digwydd.

# Beth sy'n digwydd os talwyd gormod o gredydau treth imi?

Os talwyd gormod o gredydau treth ichi, fe fydd y Swyddfa Gyllid fel rheol yn ceisio ag adennill y gordaliad drwy ostwng eich taliadau credyd treth.

Ni ddylai'r Swyddfa Gyllid adennill gordaliad a ddeilliodd o ganlyniad i 'wall gan swyddogion', cyn belled na ellid yn rhesymol fod wedi disgwyl ichi sylweddoli eich bod yn cael eich gordalu.

Yn ychwanegol, y mae gan y Swyddfa Gyllid y disgresiwn i beidio ag adennill gordaliad os gallwch ddangos y bydd hyn yn achosi caledi ichi.

Chwiliwch am ragor o gyngor os dywedir wrthych gan y Swyddfa Gyllid eich bod wedi'ch gordalu neu eich bod yn debygol o fod wedi'ch gordalu. Os ydych yn anghydweld bod yna ordaliad wedi digwydd, neu'n anghydweld â swm y gordaliad, fe allwch apelio (gweler isod).

Ond os ydych yn derbyn eich bod wedi'ch gordalu, ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad y Swyddfa Gyllid i ad-hawlio'r arian a ordalwyd. Yn hytrach, y mae'n rhaid ichi 'herio' eu hawl i adennill yr arian drwy gwblhau Ffurflen TC846. Y mae hon ar gael oddi wrth y Llinell Gymorth Credyd Treth neu ar y Wefan: http://tinyurl.com/2f39ud

Ar ôl ystyried eich her gyntaf, os ydynt yn dal i fynnu ar eu hawl i ad-hawlio'r arian, fe allwch herio hyn eto drwy wneud cŵyn drwy drefn gwyno'r Swyddfa Gyllid.

Y mae Cyswllt Teulu yn cynhyrchu canllaw i 'Gordaliadau Credydau Treth', sy'n ymdrin â'r materion hyn yn llawer manylach. Y mae hwn ar gael am ddim oddi wrth y llinell gymorth.

**Sut y gallaf apelio yn erbyn penderfyniad credyd treth?**
Fe all y Swyddfa Gyllid adolygu penderfyniad (edrych arno eto) os oes yna newid mewn amgylchiadau, os ydynt wedi gwneud camgymeriad, neu os ydynt yn credu bod eich dyfarndal yn anghywir. Os ydych yn anghytuno gyda phenderfyniad gan y Swyddfa Gyllid, fe allwch apelio.

Y terfyn amser ar gyfer apelio yw 30 o ddiwrnodau oddi ar ddyddiad y penderfyniad. Fe fydd yn rhaid gwneud apêl yn ysgrifenedig ac y mae'n rhaid rhoi'r rhesymau pam eich bod yn apelio. Fe ellir gwneud apeliadau ar ffurflen TC623, a ganfyddir ar ddiwedd taflen WTC/AP sydd ar gael oddi wrth y Swyddfa Gyllid.

Oni bai'ch bod yn rhoi gwybodaeth am newid mewn amgylchiadau, y mae fel arfer yn well gofyn am apêl yn hytrach nag adolygiad. Y rheswm am hyn yw nad yw terfyn amser yr apêl o 30 o ddiwrnodau yn cael ei ymestyn os gofynnwch am adolygiad ac y mae hyn yn cael ei wrthod.

Y mae apeliadau hwyr weithiau yn bosibl, hyd at flwyddyn a 30 o ddiwrnodau ar ôl penderfyniad. Fodd bynnag, y mae apêl hwyr ond yn cael ei ganiatáu mewn 'amgylchiadau arbennig', ac felly fe ddylech yn wastad geisio â sicrhau eich bod yn cyrraedd y terfyn amser arferol ar gyfer apeliadau.

## Credydau treth a mathau eraill o gymorth ar gyfer teuluoedd ar incymau isel

Am gyngor manwl ynglŷn â sut y bydd cais credyd treth yn effeithio ar unrhyw rai o'r budd-daliadau yr ydych yn eu cael yn awr, a fyddech cystal â ffonio'n llinell gymorth radffon.

**Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm**
Y mae Credyd Treth Plant yn disodli unrhyw daliadau dros blant a wneir gyda'ch Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm. Yn ychwanegol, y mae unrhyw Gredyd Treth Gwaith yr ydych yn ei dderbyn yn cael ei drin fel incwm a'i ddidynnu oddi wrth eich hawl am Gymhorthdal Incwm. Mewn rhai achosion, fe all hawlio credydau treth arwain at atal dyfarndal Cymhorthdal Incwm – cysylltwch â'r llinell gymorth os ydych eisiau gwybod sut y bydd cais am gredydau treth yn effeithio ar eich budd-daliadau cyfredol.

**Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor**
Y mae taliadau parhaus o gredydau treth yn cael eu cyfrif fel incwm wrth gyfrifo ad-daliadau rhent a threth cyngor (oni bai'ch bod dros 60, pan gânt eu hanwybyddu). Fodd bynnag, nid yw taliadau am ôl-ddyledion credydau treth yn aml yn cael eu cyfrif. Cysylltwch â'r llinell gymorth am ragor o gyngor.

**Budd-daliadau Iechyd**
Fe allwch gael cymorth llawn gyda chostau iechyd os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn llai na throthwy penodol ac yr ydych yn cael:

- Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant; neu
- Credyd Treth Gwaith gydag elfen anabledd; neu
- Credyd Treth Plant ac nid ydych yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith.

Y trothwy blynyddol yw £15,050 yn ystod 2007/2008.

**Talebau am lefrith, ffrwythau a llysiau am ddim**
Os ydych yn feichiog neu os oes gennych blentyn o dan bedair oed, yn derbyn Credyd Treth Plant (ond nid Credyd Treth Gwaith) ac y mae gennych incwm trethadwy blynyddol o lai na £14,495, fe ddylech fod yn gymwys am dalebau y gallwch wedyn eu defnyddio tuag at lefrith, ffrwythau ir a llysiau. Fe allwch hefyd fedru cael fitaminau atodol am ddim. Y mae'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu gan y Cynllun Cychwyn Iach, ac y mae mwy o wybodaeth am sut i gael talebau ar gael oddi wrth Linell Gymorth Cychwyn Iach:
Ffôn: 0845 607 6823 neu drwy gyfrwng eu gwefan,
Gwefan: http://www.healthystart.nhs.uk

I wneud cais am lefrith/ffrwythau am ddim, y mae arnoch angen cael ffurflen HS01 oddi wrth eich swyddfa budd-daliadau leol, meddygfa meddyg teulu, neu oddi wrth Cychwyn Iach.

**Prydau bwyd ysgol am ddim**
Fe fyddwch yn gallu cael prydau bwyd ysgol am ddim os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn llai na £14,495, y mae gennych hawl i Gredyd Treth Plant ac nid ydych chi na'ch cymar yn gweithio 16 o oriau neu fwy yr wythnos.

**Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn a Grantiau Angladd**
Fe allwch fedru hawlio'r rhain os ydych yn cael:

- Credyd Treth Gwaith gyda'r elfen anabledd neu'r elfen anabledd difrifol;
- Credyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r 'elfen teulu' sylfaenol.

# Cysylltiadau ar gyfer rhagor o wybodaeth a chyngor

Os hoffech ragor o gyngor parthed credydau treth neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill, a fyddech cystal â ffonio llinell gymorth Cyswllt Teulu:
Ffôn: 0808 808 3555 (Llun-Gwener, 10.00 y bore – 4.00 y pnawn; Llun 5.30 y pnawn – 7.30 yr hwyr)
e-bost: helpline@cafamily.org.uk

Y mae Cyswllt Teulu yn cyflogi arbenigwyr ar hawliau lles sy'n gallu rhoi cyngor manwl am unrhyw agwedd o hawlio credydau treth. Y mae'r daflen wybodaeth hon yn un o ystod a gynhyrchir gan Cyswllt Teulu, sy'n cynnwys 'Benefits, tax credits and other financial help' a 'Working'. I gael copïau, ac i ganfod mwy am daflenni gwybodaeth eraill, ffoniwch linell gymorth Cyswllt Teulu.

Y mae cyngor ar y ffôn hefyd ar gael oddi wrth Llinell Gofalwyr:
Ffôn: 0808 808 7777 (Mercher ac Iau, 10.00 y bore – hanner dydd & 2.00 – 4.00 y pnawn).

Os byddai'n amgenach gennych siarad â rhywun wyneb yn wyneb, yna fe ddylech geisio â chysylltu â'ch Canolfan Gynghori leol neu gyda phrosiect hawliau lles.

Fe allwch gysylltu â Llinell Gymorth Credydau Treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi:
Ffôn: 0845 300 3900
Ffôn Testun: 0845 300 3909
Y mae llinellau yn agored o Llun i Sul, 8.00 y bore – 8.00 yr hwyr.

Cyhoeddwyd gan Cyswllt Teulu
Ysgrifennwyd gan Derek Sinclair
Dyluniwyd gan Creatiscope Design Ltd, y Deyrnas Unedig
Argraffwyd gan Hobbs the Printers

Y mae Cyswllt Teulu yn diolch i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am eu cymorth ariannol gyda chynhyrchu'r daflen wybodaeth hon.